

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod : 05.02.13
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol : Danny Davies, Malcolm Howells, Dylan Jones, Wyn Thomas, Elfed Davies, Mali Lloyd, Arwel Nicholas, Carolyn Smethurst, Cynghorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuridau :

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Materion yn codi	<p>Gwaith ar yr heolydd: disgwyl I Mr Tony Williams wneud y gwaith cyn diwedd Mis Mawrth. Gwili Terrace; datblygiadau cadarnhaol. Gobeithir cwblhau'r gwaith o fewn pythefnos.</p> <p>Cyfleusterau cyhoeddus: amhosib gwneud penderfyniadau am eu dyfodol, heb wybodaeth pellach am gostau eu rheoli. Cyflogi gofalydd yw'r dryswch mwyaf; costau salwch, gwyliau, diswyddo, pensiwn yn ogystal a chyflog. Ar hyn o bryd, rhai sy'n chwarae ar y maes ar benwythnosau yw'r defnyddwyr mwyaf o'r tai bach, ac mae'r Cyfleusterau ar gau ar yr adeg honno. Anodd cyfiawnhau eu bodolaeth felly!</p> <p>Blychau Ffôn BT – angen tystiolaeth am bwy sydd eu perchen</p> <p>Dŵr Cymru – angen cadarnhad na fydd newid y cloriau yn creu trafferthion I drigolion; carthion yn llenwi'r tai oherwydd nad yw'r pibellau yn galluogi'r carthion i lifo. Praesept – y Cyngor yn cytuno mae £22.00 fydd y swm sydd l'w dalu</p> <p>Goleuadau'r Pentref – beth yw cost uned o drydan? Caravans Helfa Hall – wedi peidio a bod!</p>	<p>Clerc</p> <p>Clerc</p> <p>Clerc</p>
Materion Ariannol	<p>Talu Narberth Glass - £30.00 Llogi'r Neuadd - £55.00 Elusennau: Urdd Gobaith Cymru - £50.00 Dathliadau Ysgol Llanpumsaint - £250. Cynnigwyd gan Wyn Thomas ac eiliwyd gan Elfed Davies</p>	
Cynllunio	<p>Cilgwyn – dim gwrthwynebiadau Blaengors – dim sylwadau Maenllwyd – o blaid</p>	Clerc

UFA	<p>Carolyn Smethurst – twll yn yr heol rhwng Felin y Gwili a'r Ysgol; wedi ei drwsio ar frys ond yn mallu eto. Gwastraff arian!</p> <p>Caravan ym mynedfa Trebŵl – mater mewn llaw</p> <p>Bont Newydd – y clawdd yn syrthio l'r cae a thwll wedi ymddangos ar ymyl yr heol. Cynghorydd Irfon Jones wedi rhybuddio Priffyrdd</p> <p>Caravan ym Mhenrhiwfach – angen rhagor o wybodaeth</p> <p>Mynedfa wedi ymddangos wrth ymyl Bont y Railwe – cafwyd caniatad?</p> <p>Clawr isel yn yr heol gerllaw Capel Nebo</p> <p>Melin Wynt Banc Scythlyn – y darnau yn cael eu cludo drwy bentref Llanpumsaint. Sut fydd y cerbydau mawr yn ymdopi â'r Bont? Yr heol ar gau oherwydd maint y llwythau. Angen disgrifio'r sefyllfa l'r Cwmni</p> <p>Twll yn yr heol gerllaw Crimond/Cartref</p> <p>Defnydd o'r Blychau BT – angen darganfod pwy yw'r perchen gyntaf! Trafodwyd gosod Defibrillator ynddynt ac awgrymu bod Mr Peake yn ystyried sut mae codi'r arian.</p> <p>Hysbysebu Cyfarfodydd – gwell rhoi wythnos o rhybudd, nid tridiau</p>	<p>Cyng. Irfon Jones Clerc Clerc</p> <p>Clerc</p> <p>Cyng. Irfon Jones Clerc Clerc</p>

Cafwyd yn gywir : (Cadeirydd)	Cafwyd yn gywir : (Ysgriennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: